# Y Morgrygyn a Sioncyn y Gwair

Paratoi ar gyfer bywyd / Meddwl am Eraill

Bore braf o wanwyn oedd hi. Gorweddai Sioncyn y Gwair ar glustog o betalau blodau'r drain. Roedd arogl hyfryd o'i gwmpas ymhob man - arogl blodau'r drain. Pwy oedd yn mynd heibio ond y morgrygyn bach prysur a bwyd ar ei gefn. Gwaeddodd Sioncyn y gwair arno, "Tyrd i fyny ataf i i ganol blodau'r drain."
"Na'n wir," meddai'r morgrygyn bach prysur. Mae'r gaeaf yn dod ac mae'n rhaid i mi gael digonedd o fwyd ar gyfer y morgug i gyd. Pan fydd y gaeaf wedi dod fydd yna ddim bwyd i'r morgrug sy'n byw yn y nyth."

Roedd hi'n bnawn poeth yn yr haf.
Roedd Sioncyn y Gwair yn gorwedd wrth ymyl bonyn coeden oedd yn cysgodi rhag yr haul tanbaid.
Pwy ddaeth heibio ond y morgrygyn bach prysur a bwyd ar ei gefn.
"Tyrd i eistedd efo fi wrth fon y goeden i ni gael sgwrs bach," meddai Sioncyn wrtho.
"Na'n wir, mae'n rhaid i mi chwilio am fwyd i'r morgrug. Mae'r gaeaf yn dod a phan fydd y gaeaf wedi dod fydd yna ddim bwyd i'r morgrug sy'n byw yn y nyth."

Noson braf o hydref oedd hi. Roedd y lleuad newydd godi dros y mynydd. Eisteddai Sioncyn y gwair ar y dail oedd wedi syrthio oddi ar y goeden. Yng ngolau'r lleuad gwelai Sioncyn y morgrygyn prysur yn dal i gario bwyd i'r nyth. Unwaith eto gofynnodd Sioncyn i'r morgrygyn, "Wyt ti am ddod i eistedd efo mi ar y dail crin i ti gael gweld y lleuad?"
"Na'n wir" meddai'r morgrygyn. Mae'r gaeaf ar ein gwartha ni ac mae'n rhaid i mi gael digon o fwyd ar gyfer y morgrug eraill i gyd. Mi fyddai'n well i tithau chwilio am fwyd ar gyfer y gaeaf hefyd Sioncyn. Bryd hynny fydd yna ddim bwyd i'w gael yn

unman."
"Na, mae gen i ddigon o fwyd am rwan beth bynnag. Mi wnai boeni am y gaeaf pan ddaw o", meddai Sioncyn yn ddi-lol.
Un noson pan oedd y gwynt yn chwythu drwy'r coed penderfynodd y morgrygyn fynd i chwilio am fwy o fwyd. Wrth iddo fynd heibio'r goeden dderw clywai sŵn. Arhosodd i wrando. Cerddodd yn ara tua'r boncyff. Roedd y gwynt yn dal i chwythu'n gryf. Yno'n eistedd yn oer a rhynllyd roedd Sioncyn.
"Rwyf bron â marw eisiau bwyd." meddai wrth y morgrygyn, "oes gen ti ychydig o fwyd i mi?"
"Na" meddai'r morgrygyn. "Drwy'r gwanwyn, yr haf a'r hydref rydw i wedi bod wrthi'n galed yn chwilio am fwyd i'r morgrug eraill. Mae'n rhaid i mi gael digonedd o fwyd i bara dros y gaeaf."
Roedd Sioncyn yn drist iawn pan glywodd hyn.
"Mi fyddai'n well petai ti wedi gweithio dipyn mwy yn ystod y flwyddyn ac wedi meddwl am y gaeaf. Yna, byddai gennyt ti ddigon o fwyd i'w fwyta dros y gaeaf. Rwyt ti, bob amser, wedi bod yn meddwl y bydd digonedd o fwyd ar gael bob tymor o'r flwyddyn. Na, mae'n rhaid i ti ofalu am ddigon o fwyd dros y gaeaf."
Meddyliodd Sioncyn yn hir am yr hyn ddywedodd y morgrygyn.

Dysg ni, O Dduw, i baratoi ar gyfer yfory. Amen.

- Sut greadur oedd Sioncyn y gwair?
- Sut fyddech chi'n disgrifio'r morgrygyn?